# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cwmgelli Lodge Ltd**

**Cwmgelli Lodge**
**Lôn Pennant**
**Coed-duon**
**NP12 1BR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/05/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cwmgelli Lodge Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cwm Gelli Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 31 Ionawr 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn Cwmgelli Lodge, ac mae'r teuluoedd yn siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth a'r staff. Mae'r gwasanaeth yn eang gyda digon o fannau cymunedol er mwyn i'r bobl gymdeithasu ac ymgysylltu.

Mae rheolwyr y gwasanaeth yn gweithio i roi gweithdrefnau newydd ar waith a'u hymgorffori i wella a chynnal ansawdd y gofal a'r cymorth a gwelsom dystiolaeth bod y rhain yn cael eu cyfleu i'r tîm ehangach.

Fodd bynnag, gwlesom fod safonau'r gofal a'r cymorth yn amrywio, ac mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael yn Cwmgelli Lodge. Mae canlyniadau llesiant y bobl wedi'u gosod yn eu cynlluniau personol, ynghyd â chanllawiau i'r staff i gefnogi'r bobl i'w bodloni.

Gwelsom wahaniaethau yn y ffordd y mae'r staff yn rhyngweithio â'r bobl. Ar y cyfan, mae'r staff yn gynnes, yn gwrtais ac yn barchus. Gwelsom y staff yn chwerthin ac yn cael hwyl gyda'r bobl ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol. Fodd bynnag, ni oes rhyngweithio â'r bobl sydd â gwahaniaethau cyfathrebu sylweddol yn yr un modd. Gwelsom ymdrechion y bobl i gyfathrebu yn cael eu colli, a'r bobl yn cael eu lleoli ar yr ymylon yn profi perthynas wael.

Mae gan y bobl gynlluniau gweithgaredd a gallant ddewis sut i dreulio eu dyddiau. Gwelsom rai o'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp fel garddio a chwblhau pos. Mae gan y gwasanaeth gydlynwyr gweithgareddau sy'n cynllunio gweithgareddau trosfwaol i'r bobl ymuno â nhw os dymunant. Dywedodd un person wrthym eu bod yn "*looking forward to going to Longleat"* , gan eu bod ar ganol ei drefnu gyda'r rheolwr. Dywedodd y staff wrthym yn ddigon hapus am y person a oedd wedi mwynhau gwylio act deyrnged Bob Marley, a pha mor hapus roedd wedi'i wneud.

Gall teulu a ffrindiau'r bobl ei ymweld â nhw yn y gwasanaeth. Gwelsom nifer o ymwelwyr yn ystod y dydd. Roedd y bobl yn cael llonydd yn eu hystafelloedd neu'n mwynhau mannau cymunedol gyda'u teuluoedd, megis ardaloedd eistedd awyr agored yr ardd. Mae teuluoedd yn canmol y gwasanaeth, ac yn dweud wrthym fod eu perthynas wedi "*come on tremendously since being here*." Mae eraill yn canmol tîm y staff, gan ddweud bod y rheolwr yn bresennol, ac yn wybodus am y bobl.

Mae gan y gwasanaeth sgôr hylendid bwyd pum seren; fodd bynnag, mae gan y bobl farn amrywiol am opsiynau bwyd. Gwelsom ddau opsiwn ar gyfer amser cinio. Arddangosir yr opsiynau hyn yn ysgrifenedig ar fyrddau mawr gweladwy yn yr ardaloedd bwyta. Mae profiadau amser bwyd yn wael i'r bobl sydd angen mwy o gymorth. Gwelsom y bobl yn aros heb ryngweithio na chyfathrebu tra bod y staff yn paratoi prydau bwyd. Mae gan y gwasanaeth amrywiaeth o gymhorthion cyfathrebu gweledol i gefnogi amser bwyd, ond nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n gyson, a chaiff ymdrechion y bobl i gyfathrebu eu colli yn ystod amser bwyd.

Mae'r bobl yn lân ac yn gwisgo'n dda. Gwelsom y bobl yn cael eu hatgoffa i ddefnyddio eli haul, a'r gweithwyr gofal yn cynorthwyo'r bobl â'u hanghenion sylfaenol. Fodd bynnag, gwelsom nifer o risgiau i iechyd, diogelwch a lles y bobl yn y gwasanaeth oherwydd arfer gwael. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau gofal yn glir ac yn gyfredol. Gwelsom fod gan gynlluniau personol y bobl ganllawiau penodol er mwyn helpu'r gweithwyr gofal i ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae cynlluniau wedi'u gosod mewn adrannau clir gydag asesiadau risg a gweithdrefnau wedi'u cynnwys ym mhob adran. Mae tystiolaeth o nodau llesiant yn cael eu gosod fel rhan o'r cynlluniau personol ac mae hoff a chas bethau yn cael eu cofnodi ynddynt.

Mae dyddiadau adolygu'r cynlluniau yn unol â'r Rheoliadau, a cheir gwybodaeth am unrhyw newidiadau a wnaed yn ystod yr adolygiad. Dywedodd aelodau'r teulu wrthym eu bod wedi cysylltu â nhw cyn i newidiadau gael eu gwneud i gynlluniau'r bobl. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym nad oeddent wedi llwyddo i ddarllen y cynlluniau personol, a gwelsom rai o'r bobl yn cael eu cefnogi'n wahanol i'r canllawiau yn eu cynlluniau personol.

Mae gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefnau meddyginiaeth gadarn ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Fodd bynnag, mae anghysondeb wrth ddilyn y polisi a'r gweithdrefnau. Gwelsom rai arferion gwael o ran rheoli meddyginiaeth. Mae rheolwr ac arweinydd clinigol y gwasanaeth yn cynnal archwiliadau meddyginiaeth ac yn mynd i'r afael ag arfer gwael gyda phrosesau wedi'u diweddaru. Ond mae angen mwy o amser i sefydlu prosesau. Gweithredodd yr Unigolyn Cyfrifol a'r uwch dîm rheoli yn y gwasanaeth pan godwyd pryderon yn ystod yr arolygiad.

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn derbyn gofal a chymorth mewn modd amserol. Caiff clychau galw eu hateb yn gyflym yn y gwasanaeth, ac mae digon o staff i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl. Fodd bynnag, gwelsom rai achosion o'r bobl â lefelau uwch o anghenion cyfathrebu yn aros yn hirach am gymorth. Gwelsom rywfaint o berthynas a chydberthynas gadarnhaol rhwng y staff a'r bobl; fodd bynnag, nid yw rhai o'r staff yn gwybod enwau'r bobl. Mae gofal a chymorth yn aml yn canolbwyntio ar dasgau a chollir cyfleoedd i hybu annibyniaeth a meithrin perthnasoedd cadarnhaol, ac adlewyrchir hyn yn y nodiadau gofal dyddiol.

Mae gan y bobl gynlluniau gweithgaredd personol, yn ogystal â chynllun gweithgaredd trosfwaol ar gyfer y gwasanaeth a reolir gan y cydlynwyr gweithgaredd. Gwelsom weithgaredd garddio wedi'i gynllunio yn cael ei gynnal. Roedd rhai o'r bobl yn mwynhau hyn, ac fe'u gwelsom yn chwerthin ac yn cael hwyl wrth iddynt wylio. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau wedi'u teilwra i'r bobl ag anghenion symudedd cymhleth. Mae cyfleoedd wedi'u colli i gefnogi ymgysylltiad a llesiant cadarnhaol ar gyfer y bobl â lefel uwch o anghenion. Mae'r bobl wedi'u lleoli ar gyrion gweithgareddau a phrin yw'r ymdrechion a wneir i gefnogi cyfranogiad.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn lân ac wedi'i addurno â lliwiau golau sy'n creu amgylchedd dymunol a chroesawgar. Gwelsom y staff domestig yn gweithio drwy'r dydd i gynnal glendid y gwasanaeth. Mae digon o ardaloeddd cymunedol i'r bobl dreulio amser gyda'i gilydd, yn ogystal â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae ardaloedd yn hygyrch i'r bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Fodd bynnag mae cyfle wedi'i golli ar gyfer arwynebau gwaith wedi'u haddasu neu ardaloedd yn yr ardd a fyddai'n cynyddu gallu'r bobl i ymgysylltu â'r mannau agored yn rhydd. Mae'r ardd a'r "*cwtch*" yn fawr ac yn cael eu cadw'n dda.  Gwelsom y bobl yn defnyddio'r ardd a'r mannau eistedd i ryngweithio a threulio amser gyda'i gilydd. Mae'r bobl yn edrych yn hapus yn yr ardaloedd hyn. Mae digonedd o ystafelloedd ymolchi a thoiledau i'r bobl yn y gwasanaeth. Mae ceginau bach ac ardaloedd bwyta ar ddau lawr y gwasanaeth lle gall y bobl dreulio amser gyda'i gilydd, ond mae rhai arwyddion i'r staff eu dilyn yn y gegin fach sy'n amharu ar deimlad cartrefol. Mae dwy lolfa ar y ddau lawr, ond ni chafpdd y rhain eu defnyddio yn ystod yr arolygiad. Gwelsom y bobl sy'n dibynnu ar weithwyr gofal i gefnogi eu symudedd yn treulio mwy o amser yn yr ardal fwyta nag mewn ardaloedd cymunedol eraill. Mae lle ar gyfer profiadau bwyta ar ddau lawr y gwasanaeth, ond mae rhai pobl wedi'u lleoli o amgylch ymyl yr ystafell sy'n ei gwneud hi'n anodd gweld ei gilydd ac ymgysylltu.

Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain, sydd wedi'u personoli ac yn eang gyda chyfleusterau en-suite. Mae ystafelloedd y bobl yn cynnwys eitemau personol y bobl, ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi i ddewis lliw eu hystafelloedd. Gwelsom y bobl yn mwynhau amser yn eu hystafelloedd gwely yn ogystal ag mewn ardaloedd cymunedol. Gwelsom enghreifftiau o arwyddion y staff mewn un ystafell wely a oedd yn gwneud i'r gofod deimlo'n llai cartrefol.

Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer cynnal iechyd, diogelwch a lles y bobl. Mae'r tystysgrifau diogelwch a gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cwblhau ac yn gyfredol. Mae tystiolaeth bod archwiliadau amgylcheddol yn cael eu cynnal, a chamau'n cael eu cymryd i gynnal a rheoli'r amgylchedd, ochr yn ochr ag iechyd a diogelwch y bobl. Fodd bynnag, mae anghysondebau o ran y staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau, a gwnaethom nodi risgiau i iechyd, diogelwch a lles y bobl yn y gwasanaeth oherwydd arferion anghyson a gwael.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Dywedodd y bobl wrthym fod y rheolwr yn bresennol yn rheolaidd, ac yn hawdd mynd ato. Canmolodd y teuluoedd y rheolwr am ei wybodaeth am y bobl. Mae’r rheolwr a’r nyrs glinigol arweiniol wedi rhoi dull newydd ar waith wrth iddynt gerdded o amgylch y gwasanaeth i gefnogi'r staff i “*see what I see*” er mwyn helpu i gynnal yr amgylchedd a gwella’r gofal a’r cymorth a ddarperir. Dywedodd y staff a'u teuluoedd wrthym fod yr ymagwedd hon wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gyfathrebu a phrosesau o fewn y gwasanaeth.

Mae'r rheolwr yn gweithredu mewn swydd dros dro ond mae'n teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr uwch dîm rheoli yn y gwasanaeth a'r sefydliad ehangach. Dywedodd wrthym ei fod yn cael cymorth a goruchwyliaeth dda gan wahanol aelodau o'r uwch dîm.

Mae'r rheolwr, yr uwch dîm, a'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth. Ceir presenoldeb cyson a datblygwyd gweithdrefnau a phrosesau newydd i gefnogi llywodraethu a throsolwg. Gwelsom brosesau newydd yn cael eu rhoi ar waith, ond mae angen mwy o amser i'r prosesau hyn ymwreiddio a dod yn rhan o ddiwylliant y gwasanaeth.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn aml ac yn cyfarfod â'r staff a'r bobl. Canmolodd teuluoedd y bobl y cyfathrebu a gawsant yn ddiweddar gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol brosesau ar waith i gefnogi’r gwaith o oruchwylio a llywodraethu’r gwasanaeth, ond gallai’r rhain fod yn fwy cadarn i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau’n cael eu gweithredu’n gyson.

Mae'r gwasanaeth wedi profi canlyniadau cadarnhaol gyda recriwtio, a gwelsom fod rotâu a staffio yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y datganiad o ddiben. Caiff y staff gymorth a goruchwyliaeth yn unol â chanllawiau rheoleiddio. Gwelsom enghreifftiau o lwybrau datblygu gyrfa yn cael eu trafod mewn sesiynau goruchwylio. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hoffi gweithio yn y gwasanaeth a'u bod yn derbyn cymorth da gan y rheolwr. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff wrthym fod newidiadau diweddar yn y gwasanaeth wedi effeithio ar eu lles. Gwelsom fod y staff hyn yn cael cymorth a goruchwyliaeth amlach oherwydd hyn.

Mae staff mewn rolau gwahanol yn cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y bobl. Gwelsom dystiolaeth o'r staff yn cael hyfforddiant arbenigol yn ystod yr arolygiad, a bydd cynlluniau hyfforddi a weithredir gan y rheolwr yn cefnogi datblygiad y staff ac yn gwella'r modd y darperir gofal a chymorth. Lle nad yw'r staff wedi mynychu hyfforddiant arbenigol gwelsom effaith bosibl ar y bobl. Fodd bynnag, gwelsom gynllun i fynd i'r afael â hyn. Mae'r rheolwr wedi rhoi prosesau newydd ar waith ar gyfer cefnogi'r staff yn ystod y cyfnod sefydlu. Bydd y prosesau hyn yn cymryd amser i wreiddio ac effeithio ar y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff gofal a chymorth eu rhoi mewn ffordd sy'n amddiffyn, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. Sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau yn y cartref yn cael eu goruchwylio'n ddigonol er mwyn gallu darparu gofal a chymorth cyson mewn ffordd sy'n hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant y bobl. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 60 | Sicrhau bod hysbysiadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol a heb oedi | Adolygwyd |
| 59 | Ni chaiff cofnodion cywir bob amser eu cwblhau i ddangos bod y bobl yn cael eu cefnogi'n unol â'u cynlluniau personol | Adolygwyd |
| 15 | Nid yw pob cynllun personol yn cynnwys digon o fanylion i hysbysu'r staff gofal sut y dylid cefnogi'r bobl yn y ffordd orau | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/06/2023